**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**

**PWNC:** **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO - DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023 DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: L. WINNETT (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: P. Baldwin (Is-gadeirydd)
J. Holt
E. Jones
L. Parsons
D. Rowberry
C. Smith
W. Hodgins
G. Humphreys
J. Thomas
D. Wilkshire

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Cafwyd adroddiad am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Day a Jen Morgan, Y.H. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADOLYGIAD O'R GWASANAETH CYNLLUNIO – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r argymhellion a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>GWYBODAETH PERFFORMIAD CHWARTEROL RHEOLI DATBLYGU – CHWARTER 4 – IONAWR I MAWRTH 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth a gynhwysir ynddynt. | |
| **No. 6** | **<u>RHEOLI ADEILADU – GALW MAS ALLAN O ORIAU I STRWYTHURAU PERYGLUS</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac mewn pleidlais, cymeradwywyd Opsiwn sef:-<br><br>• Parhau â'r trefniant presennol lle nad oes gwarant y bydd Swyddog Rheoli Adeiladu yn mynychu digwyddiad. Mantais yr opsiwn hwn yw ei fod yn golygu llai o gost.<br><br>• Fodd bynnag, seilir hyn ar i'r Cyngor gydnabod a derbyn y risg lle byddai gwasanaethau argyfwng angen cyngor proffesiynol ar ddiogelwch strwythur e.e. i fynd i mewn, yna ni fydd unrhyw Swyddog Rheoli Adeiladu yn bresennol.<br><br>• Gofynnir i RCSLT ystyried y risg bosibl yma a niwed i enw da, yn gysylltiedig gyda'r hyn a all fod yn ddigwyddiad sylweddol ac nad yw Rheoli Adeiladu yn mynychu.<br><br>• Gall hefyd brofi'n amhosibl i ddechrau unrhyw adferiad cost yn erbyn perchnogion eiddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 7** | **<u>APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS GORFFENNAF 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>RHESTR Y CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 30 MAI 2023 A 22 MEHEFIN 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 9** | **<u>MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH A HYFFORDDIANT AELODAU</u>**<br><br>Adroddodd y Cadeirydd y byddir yn trefnu'r sesiynau Gwybodaeth i Aelodau dilynol maes o law:<br>• Hyfforddiant Gorfodaeth<br>• Adran 106<br>• Ystyriaethau Cynllunio Sylweddol<br><br>Nodwyd y cynigir y sesiynau hyfforddiant i holl Aelodau'r Cyngor. | |